
**Mewn Serchus Goffadwriaeth**

am y

# Parch. Job Herbert

Gweinidog Eglwysi Calfaria Penygroes, a Phenrhiwgoch

1896—1941.



Bu farw dydd Mawrth, Mawrth 4ydd, 1941.

*Cleddir ym Mynwent Porthyrhyd, Llanddarog,*
*Dydd Sadwrn, Mawrth, 8fed, 1941.*

**"Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn goleuo."**

Davies a Morris, Argraffwyr, Penygroes.

## Emyn 586. BRYN CALFARIA.

WELE wrth y drws yn curo
    Iesu, tegwch nef a llawr;
Clyw ei lais ac agor iddo,
    Paid ag oedi funud awr;
        Agor iddo,
    Mae ei ruddiau fel y wawr.

O! mor felys a fydd gwledda
    Ar yr iachawdwriaeth rad,
Wedi gadael byd o drallod,
    Draw yn nhawel dy ein Tad;
        Agor iddo,
    Cynnyg mae y nef yn rhad.

---

## Emyn 685. BLAENWERN.

O RYFEDDOL dyner gariad
    Sy'n fy arwain drwy fy oes,
Cariad o dragwyddol darddiad
    A ddadlenwyd ar y groes;
Cariad Tad heb ffin na mesur
    Fel y Duwdod yn ei faint;
Cariad erys drwy yr oesoedd
    Yn brif destyn mawl y saint.

Dyma sylfaen fy nghobeithion
    Rydd ysbrydiaeth yn fy nghân,
Fy nghynorthwy yn y dyfroedd
    A fy nodded yn y tân;
Nid oes i'm o fewn y cread
    Nid oes i'm yn nef y nef,
Ddim mewn bywyd, ddim yn angeu
    Fel ei gariad rhyfedd Ef.

## Emyn 780. CEFN BEDD LLEWELYN.

ER chwilio'r holl fyd,
    A'i fwyniant i gyd,
Nid ynddo mae'r balm a'm hiachā;
    Ond digon im' yw
    Yr Iesu a'i friw,
Caf iechyd o'm pennyd a'm pla.

O'r nefoedd fe ddaeth,
    I wared rhai caeth,
Fe'i gwelwyd mewn preseb oedd wael:
    Ar groesbren fe'i caed,
    Rhodd drosom Ei waed—
Ei debyg p'le gellir ei gael?

---

## Emyn 35. LLANLLYFNI.

GAD imi fyw o hyd
    I ti, fy Arglwydd mawr
Heb roddi serch y nefol fyd,
    Ar bethau llwm y llawr.
    Gad imi beunydd fod
    Am bryd ar gynnydd Duw,
Am ddwyfol anian boed fy nod
    A bod yn ysbryd byw.